## ***CAIS AM DRWYDDED EIDDO DROS DRO: GŴYL RHAGLAN, Y STRYD FAWR, RHAGLAN***

Yn unol â Deddf Trwyddedu 2003 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, rhaid i'r Awdurdod Lleol gyhoeddi ar ei wefan fanylion y cais uchod am gyfnod o ddim llai na 28 diwrnod yn olynol gan ddechrau ar y diwrnod y caiff y cais ei dderbyn.

Rhaid i'r ymgeisydd arddangos hysbysiad yn yr eiddo am gyfnod o ddim llai na 28 diwrnod yn olynol gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y rhoddwyd y cais i'r awdurdod trwyddedu perthnasol. Rhaid i'r hysbysiad, ym mhob achos, gael ei arddangos yn amlwg yn yr eiddo y mae'r cais yn ymwneud ag ef neu ynddi, lle y gellir ei ddarllen yn gyfleus o'r tu allan i'r eiddo ac yn achos eiddo sy'n gorchuddio arwynebedd o fwy na hanner can metr sgwâr, hysbysiad pellach ar yr un ffurf ac yn ddarostyngedig i'r un gofynion bob hanner can metr ar hyd perimedr allanol yr eiddo sy'n ffinio ag unrhyw briffordd; Rhaid i'r Hysbysiad sydd i'w arddangos ar y safle fod: o faint cyfartal neu fwy nag A4, o liw glas golau, wedi'i argraffu'n ddarllenadwy mewn inc du neu wedi'i deipio mewn du mewn ffont o faint sy'n hafal i neu'n fwy na 16;

Rhaid i'r ymgeisydd hefyd osod Hysbysiad yn y Papur Newydd Lleol o leiaf unwaith o fewn 10 diwrnod gwaith yn cychwyn y diwrnod ar ôl i'r cais gael ei wneud i'r Awdurdod trwyddedu.

Mae Pwyllgor Gŵyl Rhaglan yn gwneud cais am Drwydded Safle Dros Dro ar gyfer Cae Chwaraeon Rhaglan, Ffordd yr Orsaf, Rhaglan ar gyfer 26ain Awst 2024.

Mae'r Drwydded, os caiff ei chaniatáu, er mwyn galluogi'r Gweithgareddau Canlynol i ddigwydd: Gwerthu Alcohol ac Adloniant a Reoleiddir.

Gall unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r cais hwn wneud hynny drwy ysgrifennu at yr Adain Drwyddedu, Cyngor Sir Fynwy, Canolfan Addysg Gymunedol y Fenni, Hen Fforddd Henffordd, Y Fenni. Gellir cyflwyno sylwadau am 28 diwrnod yn olynol o ddyddiad yr hysbysiad hwn.

Cedwir copi o'r cais am ganiatáu'r drwydded uchod gan yr Adain Drwyddedu. Gellir gweld y cais o ddydd Llun i ddydd Iau rhwng 9am a 5pm a dydd Gwener rhwng 9am a 4.30pm ac eithrio diwrnodau Gŵyl y Banc yn Hybiau'r Cyngor/Neuadd y Sir, Brynbuga trwy drefniant o flaen llaw yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad uchod. Mae copi o'r cais hefyd ar gael i'w weld ar-lein www.monmouthshire.gov.uk

Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n fyrbwyll mewn cysylltiad â chais. Mae'r ddirwy y mae person o bosib yn gorfod talu, ar gollfarn ddiannod am y drosedd, yn ddiderfyn.

Dyddiedig: 6ed Gorffennaf 2024